Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014

## Adroddiad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

Ionawr 2015

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014

## Adroddiad ar yr Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd

**Mae’r wybodaeth hon ar gael hefyd ar wefan GOV.UK**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 1 |
| Adran 1 – Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Adran 2 – Cyflwyniad | 4 |
| Adran 3 – Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014 | 6 |
| Adran 4 – Dadansoddiad llif data | 21 |
| Adran 5 – Dadansoddiad diogelu data a chynllun rheoli risg | 22 |
| Adran 6 – Cyfathrebiadau / Strategaeth Gyhoeddi | 223 |
| Adran 7 – Cymeradwyo'r adroddiad | 24 |

# Adran 1 – Crynodeb Gweithredol

## Cefndir

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cynnal proses gystadleuol i ddyfarnu grant i ddarparu gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n cael profedigaeth oherwydd lladdiad. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau y byddai gwasanaethau yn parhau heb unrhyw doriad ar ôl i'r cytundeb grant blaenorol, gyda Cymorth i Ddioddefwyr, ddod i ben ar 30 Medi 2014. Fel y nodwyd yn y broses sgrinio, roedd yn ofynnol cynnal Asesiad Bach o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer y Polisi. Yr adroddiad hwn yw'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer y Polisi.

## Canfyddiadau

Nid oes llawer o berygl y bydd y polisi yn cael effaith niweidiol ar breifatrwydd, os mai canlyniad y broses gystadleuol o ddyfarnu grant yw y bydd y cyflenwr presennol yn gwneud cais llwyddiannus i ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Er hynny, hyd yn oed yn y sefyllfa hon, bydd y prosesau data presennol, sydd eisoes yn cyflawni gofynion deddfwriaethol, yn parhau i fod yn ddefnyddiol. Pe byddai darparwr newydd yn cael ei benodi, yna mae mwy o risg – yn arbennig wrth drosglwyddo cleientiaid rhwng darparwyr – a byddai'n rhaid gwneud gwaith i sicrhau bod y prosesau yn ddigon diogel. *Noder: mae manylion yr adroddiad yn seiliedig ar y deiliad (Cymorth i Ddioddefwyr) yn parhau fel y darparwr gwasanaeth, wrth i'r Gweinidogion gytuno y dylai'r gwasanaeth newydd gael ei weithredu gan y deiliad.*

## Argymhelliad

Gofyniad yn y cytundeb grant i'r darparwr gwasanaeth newydd weithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i liniaru unrhyw faterion diogelu data.

## Y Broses Adolygu

Cafodd y prosesau a'r trefniadau trosglwyddo data rhwng y darparwr gwasanaeth presennol, heddluoedd a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad eu mapio, ac mae'r rhain wedi hysbysu'r ddogfen ddisgrifiadol ar gyfer y gwasanaeth newydd. Bydd y cytundeb grant ar gyfer y gwasanaeth newydd hefyd yn nodi'n glir bod cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data yn hollbwysig.

# Adran 2 – Cyflwyniad

## Cefndir

Mae Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn broses sy'n helpu i asesu risgiau preifatrwydd i unigolion wrth gasglu, defnyddio a datgelu gwybodaeth. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn helpu i nodi risgiau preifatrwydd, rhagweld problemau a chyflwyno atebion. Prif ddiben Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yw arddangos yn weladwy bod sefydliad yn gweithredu'n gyfrifol mewn cysylltiad â phreifatrwydd. Gellir crynhoi'r materion i'w cyflawni a'r manteision o gynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd fel a ganlyn:

- Nodi a rheoli risg;
- Osgoi costau diangen;
- Atal atebion annigonol;
- Osgoi colli ymddiriedaeth ac enw da;
- Hysbysu dinasyddion a phartneriaid ynglŷn â strategaeth gyfathrebu'r sefydliad;
- Cyflawni a rhagori ar ofynion cyfreithiol.

## Amcan

Amcan cynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yw nodi unrhyw faterion diogelu data sy'n gysylltiedig â'r bwriad arfaethedig i gomisiynu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau. Mae'n bwysig cofio mai prif ddiben Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, yn y pen draw, yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data. Fodd bynnag, dylid ystyried cydymffurfiaeth â deddfwriaethau perthnasol eraill hefyd.

## Yr egwyddor sylfaenol

Mae'n rhaid rhannu a phrofi data o fewn fframwaith cyfreithiol clir, gan geisio sicrhau'r ymyrraeth leiaf ar breifatrwydd unigolion. Drwy gynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, rydym yn helpu i sicrhau bod yr egwyddor hon yn cael ei chyflawni.

## Gofyniad Llywodraeth Ei Mawrhydi (LlEM)

Mae'r Adolygiad Trin Data, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008, yn datgan y bydd pob Adran yn cyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd, a fydd yn sicrhau bod materion preifatrwydd yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau o'r cychwyn cyntaf, a bod y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau yn gwybod beth yw eu nodau. Yn yr un modd, bydd asesiadau risg gwybodaeth yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiadau "Porth" y Llywodraeth, sy'n monitro cynnydd y prosiectau mwyaf arwyddocaol. Mae'r Adolygiad Trin Data wedi'i gynnwys yn Safon Sicrhau Gwybodaeth Rhif 6 LlEM - Diogelu Gwybodaeth Bersonol a Rheoli Risg i Wybodaeth. Yn unol â hyn, bydd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn

cael eu cynnal ar y prosiectau a'r polisïau hynny sy'n eiddo i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder , sy'n cynnwys prosesu data personol.

## Y Broses Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

Mae'r broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd yn cael ei disgrifio gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

1. Asesiad cychwynnol (h.y. y Broses Sgrinio) – Yn archwilio'r prosiect ar gam cynnar, yn gwneud asesiad cychwynnol o'r risg i breifatrwydd ac yn penderfynu ar y lefel o asesiad[1] sydd ei hangen. Mae'r asesiad cychwynnol hwn wedi'i gynnal a chyfeirir at yr adroddiad dilynol yn yr adroddiad hwn.

2. Pan fydd angen, naill ai cynnal:

- Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd – asesiad mwy manwl o risgiau i breifatrwydd ac atebolrwydd. Mae'n cynnwys yr angen i nodi rhanddeiliaid, dadansoddi risgiau i breifatrwydd, mae'n ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ar bryderon preifatrwydd ac mae'n cyflwyno atebion ar gyfer derbyn, lliniaru neu eu hosgoi; neu
- Asesiad bach o'r Effaith ar Breifatrwydd – Yn debyg i Asesiad llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd, ond yn llai ffurfiol. Mae'n gofyn am broses llai cynhwysfawr o gasglu a dadansoddi gwybodaeth. Mae'n fwy tebygol o gael ei ddefnyddio wrth ganolbwyntio ar agweddau penodol prosiect.
- Adolygiad – Mae'r adolygiad hwn yn pennu amserlen ar gyfer adolygu'r gweithredoedd sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ac mae'n archwilio eu heffeithiolrwydd. Mae'n edrych ar agweddau newydd ac yn asesu a ddylid cynnal Diweddariad o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014.

---

[1] Asesiad Llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd, Asesiad Bach o'r Effaith ar Breifatrwydd neu dim Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd

# Adran 3 – Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014

## Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymroth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014 - Trosolwg

| | |
|---|---|
| 1. | *[Enw'r Prosiect?]*<br>Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014. |
| 2. | *[Beth yw'r Prosiect/Polisi/Fenter?]*<br>Proses gystadleuol i ddyfarnu grant ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd lladdiad ar ôl 2010. Ni fydd gan Y Weinyddiaeth Cyfiawnder unrhyw reolaeth dros ddata'r gweithredwr. |
| 3. | *[Beth yw prif swyddogaeth/diben y Prosiect/Polisi/Fenter?]*<br>Sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl sydd wedi cael profedigaeth oherwydd lladdiad, ar ôl 2010, yn parhau heb unrhyw doriad ar ôl i'r cytundeb grant blaenorol, gyda Cymorth i Ddioddefwyr, ddod i ben ar 30 Medi 2014. |
| 4. | *[A yw'r Broses Sgrinio wedi'i chwblhau, darparu crynodeb o'r canfyddiadau. Dylid cynnwys: dyddiad yr adroddiad, a yw'n argymell Asesiad Llawn o'r Effaith ar Breifatrwydd neu Asesiad Bach o'r Effaith ar Breifatrwydd?]*<br>Y broses sgrinio wedi'i chwblhau. Adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2014; argymell Asesiad bach o'r Effaith ar Breifatrwydd. Nid oes angen newid llawer ar yr ymagwedd rheoli data bresennol, ond dylid parhau i gasglu data gan ddioddefwyr newydd lladdiadau. Bydd y wybodaeth yn cael ei chyflwyno i sefydliadau arbenigol sy'n darparu cymorth. |
| 5. | *[A yw Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn wedi'i gynnal eisoes? Os yw asesiad wedi'i gynnal, darparwch fanylion, e.e. y dyddiad, a oedd yn asesiad llawn neu'n asesiad bach.]*<br>Na. |
| 6. | *[Yn gryno, beth yw'r prif ddata a fydd yn cael ei brosesu fel rhan o'r Prosiect/Polisi/Fenter?]*<br>Gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth oherwydd lladdiad. Gallai hyn gynnwys cyfeiriadau, natur y lladdiad, manylion y dioddefwr, manylion banc, cyflogaeth, iechyd neu fanylion personol tebyg eraill. |

## Defnyddwyr y System

| | |
|---|---|
| 7. | *[Pa grŵp/grwpiau defnyddwyr fydd yn gallu cael mynediad i'r data?]*<br>Gweithredwr y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau. Unrhyw sefydliadau sy'n cael eu his-gontractio gan y darparwr gwasanaeth (gydag unrhyw gytundebau data angenrheidiol mewn grym) sy'n darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr. Yr Heddlu a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Asiantaethau a allai fod yn cymryd rhan mewn Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth, pan fydd dioddefwyr lladdiadau trais domestig (bydd protocolau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth mewn grym). |
| 8. | *[A fydd contractwyr/darparwyr gwasanaeth i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gallu cael mynediad i'r data?]*<br>Byddant, pob un o'r uchod. |
| 9. | *[A oes unrhyw ddarpariaeth cymorth/cynnal gwaith o bell gan 3ydd parti yn cael ei chynnig? Sut y bydd y mynediad hwn gan 3ydd partïon yn cael ei gyfyngu/rheoli/cofnodi a'i archwilio?]*<br>Oes, Claritas. Mae Claritas***** yn gyflenwr sy'n cael ei ffafrio gan yr heddlu, ac mae pob aelod o staff wedi cael cliriad diogelwch.<br>***** Mae'r cwmni Claritas Solutions yn darparu gwasanaethau ac atebion TG annibynnol ar draws holl sectorau diwydiant, gan arbenigo mewn sicrhau bod cleientiaid yn osgoi risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio darparwyr lluosog. |

## Achos busnes

| | |
|---|---|
| 10. | *[Pa ddata fydd yn cael ei gasglu?]*<br>Data personol sensitif a data am anghenion cymorth pobl mewn profedigaeth. Gallai'r rhain gynnwys enw, cyfeiriad, oedran, rhyw, manylion ariannol, banc a chyflogaeth a manylion eraill y credir sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r gweithiwr achos a'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau i gynnal asesiad o anghenion pobl mewn profedigaeth a gallu cyflenwi'r cymorth angenrheidiol; hefyd monitro cynnydd y cymorth a'i addasu yn ôl yr angen. Bydd y cofnodion ystadegol yn galluogi gweithredwr y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau i arddangos i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ei fod yn darparu'r gwasanaeth y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer ac arddangos gwerth am arian yn eu defnydd o arian cyhoeddus. Mae hyn yn bwysig, er mwyn i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder allu monitro'r cytundeb grant ac ymateb i ymholiadau ynglŷn â defnyddio'r grant gan Weinidogion a'r Senedd. |

| | |
|---|---|
| 11. | *[Yn gryno, pa elfennau o Ddata Personol sy'n cael eu defnyddio gan y system/prosiect? e.e. Cyfenw, Enwau Cyntaf, Rhyw, Rhif Diffynnydd, Dyddiad Geni, Statws Mechnïaeth / y Ddalfa, Dyddiadau Gwrandawiad/Treial/Collfarn/Dedfryd, Cyhuddiadau (yn cynnwys y cyfeiriadau y cawsant eu cyflawni), Manylion dedfryd, ac yn y blaen.]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 10. |
| 12. | *[Nodwch y pynciau data y bydd y Data yn cael ei gasglu ganddynt?]*<br>Teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth drwy laddiad. |
| 13. | *[Sut y byddant yn gwirio cywirdeb y data sy'n cael ei gasglu gan unigolion neu sy'n deillio o'r system?]*<br>Bydd gweithwyr achos y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yn cysylltu â theuluoedd, yr heddlu a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Bydd y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yn cynnal gwiriadau mewnol i sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei gofnodi'n gywir. Bydd yr heddlu a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn darparu data personol i'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau, gyda chaniatâd testun y data. |
| 14. | *[Pam fod y Data yn cael ei gasglu?]*<br>Er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau i asesu a chofnodi anghenion cymorth unigolion sydd wedi cael profedigaeth a monitro'r cymorth parhaus a nodwyd. |
| 15. | *[A fydd y prosiect yn dadansoddi'r data er mwyn cynorthwyo defnyddwyr i nodi meysydd i'w nodi, meysydd o bryder neu batrwm nad oedd yn hysbys o'r blaen?]*<br>Na. |
| 16. | *[Sut y byddant yn gwirio cywirdeb y data sy'n cael ei gasglu gan unigolion neu sy'n deillio o'r system?]*<br>Bydd y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yn cynnal gwiriadau mewnol i sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei gofnodi'n gywir. Bydd diogelwch y data yn cael ei reoli drwy Weithgor Diogelwch sy'n cynnwys ymgynghorydd CLAS (Cynllun Cynghorwyr Rhestredig CESG*). Mae'r dulliau rheoli data yn cydymffurfio â Diogelwch System briodol, sydd wedi'i achredu gan Uwch Achredydd Systemau'r Heddlu.<br>***** Awdurdod Technegol Cenedlaethol Sicrhau Gwybodaeth llywodraeth y DU |
| 17. | *[Sut mae'r Data yn cael ei gasglu?]*<br>Gan Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd, gweithwyr y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau a swyddogion y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (gellir gwneud hyn wyneb yn wyneb, mewn galwad ffôn neu holiadur). |

| | |
|---|---|
| 18. | *[Sut mae’r data yn cael ei storio?]*<br><br>Ar system rheoli achosion sy’n destun asesiad risg ar lefel rheoliadau priodol Diogelwch Gwybodaeth a Lefelau Effaith y Llywodraeth. Bydd yn cael ei gadw yng nghanolfan ddata’r Heddlu, sy’n cydymffurfio â’r safonau hyn ac sy’n cael ei hachredu’n unol â hynny. |
| 19. | *[Disgrifiwch bob un o’r ffyrdd gwahanol y bydd y Data Personol yn cael ei ddefnyddio (yn cynnwys at ddibenion profi).]*<br><br>Er mwyn cynnal cofnodion i’w defnyddio gan weithwyr achos y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau a sefydliadau sydd wedi’u his-gontractio i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth; galluogi dadansoddiad ystadegol, a fydd yn galluogi’r Weinyddiaeth Cyfiawnder i fonitro effeithiolrwydd y defnydd o’r dyfarniad grant, yn nhermau’r niferoedd sy’n derbyn cymorth a’u boddhad gyda’r cymorth a roddwyd. |
| 20. | *[Sut y bydd y Data yn cael ei drosglwyddo?]*<br><br>Drwy system e-bost ddiogel (wedi’i hachredu gan CESG). Mae Egress yn gytundeb prosesu Data sydd ar gael yn fasnachol, rhwng y darparwr gwasanaeth a’r Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu. Bydd y data yn cael ei ddiogelu gan gyfrineiriau. |
| 21. | *[Faint o ddata fydd yn cael ei gasglu a’i storio (agregu?), a fydd y prosiect yn storio neu’n trosglwyddo mwy na 250 o gofnodion Data Personol?]*<br><br>Mae’n debygol y bydd data ar fwy na 1,000 o unigolion y flwyddyn. |
| 22. | *[A fydd Data Personol Sensitif yn cael ei brosesu, ei storio neu ei drosglwyddo yn ystod y prosiect hwn? Data Personol Sensitif yw Data Personol sy’n cynnwys data ar hil neu darddiad ethnig, argyhoeddiadau gwleidyddol, credoau crefyddol ac yn y blaen.]*<br><br>Bydd. |

| | |
|---|---|
| 23. | *[Pa awdurdodau/trefniadau/cytundebau cyfreithiol penodol sy'n diffinio'r gwaith o gasglu data?]*<br>Pob deddfwriaeth diogelu data berthnasol. Bydd y data ond yn cael ei rannu gyda chaniatâd testun y data. Trefniadau rhannu data neu gytundebau prosesu data rhwng y darparwr a phob sefydliad perthnasol*. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i ddata personol/personol sensitif gael ei drosglwyddo gyda chaniatâd gwybodus testun y data. Mae'r Cod Ymarfer Dioddefwyr yn ategu hyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu gyfeirio'r data (gyda chaniatâd) i asiantaeth gwasanaethau dioddefwyr. Mae gan y deiliad (sef y darparwr gwasanaeth newydd hefyd) gytundeb rhannu data gyda'r Gymdeithas Prif Swyddogion Heddlu.<br>***** Mae cytundeb rhannu data yn gytundeb sy'n galluogi asiantaeth i rannu data gydag asiantaeth arall, gyda chaniatâd testun y data neu borth cyfreithiol. Yr asiantaeth dderbyn fydd rheolwr y data. Mae cytundeb prosesu data yn gytundeb lle bydd rheolwr data yn comisiynu (fel arfer yn talu) i asiantaeth i gyflenwi swyddogaeth ar ei ran. Yr asiantaeth rannu fydd yn parhau i fod yn rheolwr y data drwy gydol y broses a'r asiantaeth dderbyn fydd y prosesydd data. |

| | |
|---|---|
| 24. | *[A roddwyd hysbysiad i'r unigolyn cyn i'r data gael ei gasglu? Os rhoddwyd hysbysiad, darparwch gopi o'r hysbysiad fel atodiad i'r ddogfen hon (Gall hysbysiad gynnwys polisi preifatrwydd wedi'i bostio neu hysbysiad preifatrwydd ar ffurflenni).Os na ddarparwyd hysbysiad, beth oedd y rheswm dros hyn?]*<br>Do. Hyn yw'r arfer cyfredol a bydd yn parhau (Mae Cod Ymarfer Dioddefwyr yn berthnasol yn awr). Mae gan bob ardal heddlu ei hysbysiad ei hun. Mae enghraifft nodweddiadol – gan y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan – wedi'i hatodi. |
| 25. | *[A yw unigolion yn cael cyfle a/neu a oes ganddynt yr hawl i wrthod darparu data?]*<br>Ydy / Oes. |
| 26. | *[(i) A ydym ni'n prosesu'r data at y diben gwreiddiol y cafodd ei gasglu? (ii) A oes gan unigolion yr hawl i roi caniatâd ar gyfer rhai mathau penodol o ddefnyddio data, ac os felly, sut mae'r unigolyn yn arfer yr hawl hwnnw?]*<br>(i) Ydym. (ii) Oes, yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Mae Swyddogion Cyswllt â Theuluoedd yn cyflwyno'r gwasanaeth i'r rhai sydd wedi cael profedigaeth ac os byddant yn gofyn am gymorth, gofynnir am eu caniatâd i drosglwyddo eu data personol sensitif i'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau. |
| 27. | *[Beth yw'r gweithdrefnau sy'n galluogi unigolion i gael yr hawl i gael mynediad i'w data eu hunain?]*<br>Yn unol â deddfwriaeth berthnasol y Llywodraeth. Dylid cyflwyno Ceisiadau am Fynediad i Bynciau yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau. |

| | |
|---|---|
| 28. | *[Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer cywiro data anghywir?]*<br>Drwy hysbysu'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau. |
| 29. | *[Sut mae unigolion yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer cywiro eu data?]*<br>Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yn darparu'r wybodaeth hon. |
| 30. | *[Os na ellir unioni'r sefyllfa, a oes dewisiadau eraill ar gael?]*<br>Ddim yn berthnasol. |

## Perthnasau sefydliadol

| | |
|---|---|
| 31. | *[A yw'r data yn cael ei rannu gyda sefydliadau/adrannau mewnol? Os ydyw, rhestrwch y rhain.]*<br>Gellir ei rannu gyda thimau mewnol priodol os bydd angen. |
| 32. | *[Ar gyfer pob sefydliad/adran, pa ddata sy'n cael ei rannu ac at ba ddiben?]*<br>Gellir rhannu data o fewn timau perthnasol er mwyn sicrhau bod y cymorth angenrheidiol yn cael ei ddarparu i'r teuluoedd mewn profedigaeth. |
| 33. | *[Sut mae'r data yn cael ei drosglwyddo neu ei ddatgelu?]*<br>Drwy system e-bost ddiogel wedi'i hachredu gan CESG. |
| 34. | *[A yw'r data yn cael ei rannu gyda sefydliadau/adrannau allanol/sefydliadau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth. Os ydyw, rhestrwch y rhain]*<br>Ydy. Pan fydd yn briodol, gyda chaniatâd y teuluoedd, asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol (HMCS, NOMS, CPS, y Gwasanaeth Prawf), yr Heddlu, FCO, MARACS, sefydliadau sy'n cael eu his-gontractio i gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd lladdiad ar ôl 2010. Gyda'r holl gytundebau data angenrheidiol mewn grym. |
| 35. | *[Nodwch pa un o'r sefydliadau hyn, os o gwbl, sydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, a sut yn benodol y maent yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data?]*<br>Dim un. Nid oes unrhyw ddata yn cael ei storio y tu allan i'r DU. |
| 36. | *[Ar gyfer pob sefydliad allanol, pa ddata sy'n cael ei rannu ac at ba ddiben?]*<br>Er mwyn gallu mynd i'r afael yn briodol ag anghenion pobl mewn profedigaeth. Bydd data ond yn cael ei rannu gyda chaniatâd gwybodus testun y data. Galluogi - pan fydd angen - adrannau / asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol i roi cymorth i deuluoedd drwy broses y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Llywodraeth yn ceisio darparu'r cymorth gorau posibl i ddioddefwyr troseddau. Gwybodaeth ystadegol at ddibenion monitro grantiau ac er mwyn darparu cyngor i Weinidogion ar gyfer polisïau / Cwestiynau |

| | |
|---|---|
| | Seneddol ac yn y blaen. Bydd y cofnodion ystadegol yn galluogi gweithredwr y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau i arddangos i'r Weinidogaeth Gyfiawnder ei fod yn darparu'r gwasanaeth y rhoddwyd y grant ar ei gyfer a dangos eu bod yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae hyn yn bwysig er mwyn i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder allu monitro'r cytundeb grant ac ymateb i ymholiadau ynglŷn â defnyddio'r grant gan Weinidogion a'r Senedd. Bydd data personol ond yn cael ei rannu gyda chaniatâd testun y data neu borth cyfreithiol arall (gweler cwestiwn 23). |
| 37. | *[Sut mae'r data yn cael ei drosglwyddo neu ei ddatgelu i bob sefydliad allanol?]*<br>Drwy e-bost diogel. Mae angen cyfrinair i gael mynediad i bob e-bost diogel. |
| 38. | *[Sut mae'r data sy'n cael ei rannu yn cael ei ddiogelu gan y sawl sy'n ei dderbyn? Am ba hyd y bydd y data yn cael ei gadw? Sut y bydd y data yn cael ei ddinistrio'n ddiogel?]*<br>Mae'r holl ddata yn cael ei ddiogelu yn unol â gofynion deddfwriaeth, a bydd ond yn cael ei gadw am gyhyd ag y bydd angen. Mae data yn cael ei gadw am 6 blynedd ar ôl cau achos, sy'n galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddwyn achos yn erbyn y deiliad yn ystod y cyfnod hwn, os yw'r person yn credu bod y gwasanaeth wedi bod yn esgeulus. Mae gan y deiliad bolisi cadw data priodol (sy'n destun hawlfraint) yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. |
| 39. | *[A oes Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, contract, neu unrhyw gytundeb rhannu data mewn grym gydag unrhyw sefydliadau allanol y mae'r data yn cael ei rannu gyda hwy drwy'r system, ac a yw'r cytundeb yn adlewyrchu cwmpas y data i'w rannu?]*<br>Oes. Bydd cytundeb/cytundebau yn cydymffurfio â gofynion rhannu data. |
| 40. | *[Pa hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer defnyddwyr o asiantaethau y tu allan i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder cyn derbyn mynediad i'r data a sut mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei archwilio er mwyn cydymffurfio â pholisi cyfredol Y Weinyddiaeth Cyfiawnder ?]*<br>Bydd y Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau yn darparu ac yn monitro pob hyfforddiant priodol er mwyn cydymffurfio â phob gofyniad deddfwriaethol perthnasol. |

## Y dechnoleg a ddefnyddir

| | |
|---|---|
| 41. | *[A gafodd y system ei chreu o'r bôn i'r brig ("pwrpasol") neu, a gafodd cynnyrch COTS ei brynu a'i osod?]*<br>Crëwyd y system o'r bôn i'r brig. Mae'r darparwr gwasanaeth wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer y System Rheoli Achosion. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn fodlon bod y darparwr wedi gwneud y gwaith angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio, ac y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. |
| 42. | *[Disgrifiwch sut y cafodd cywirdeb, preifatrwydd a diogelwch y data eu dadansoddi fel rhan o'r penderfyniadau a wnaed ar gyfer eich system (Gweithgor Diogelwch), Dogfen Gofynion Defnyddiwr, Dogfen Gofynion Diogelwch)?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 43. | *[Pa ddewisiadau dylunio a wnaed i wella preifatrwydd?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 44. | *[A yw'r system yn defnyddio "rolau" i aseinio breintiau i ddefnyddwyr y system?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 45. | *[Pa weithdrefnau sydd mewn grym i benderfynu pa ddefnyddwyr sy'n gallu cael mynediad i'r system a lle mae'r rhain wedi'u dogfennu?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 46. | *[Sut mae aseiniadau gwirioneddol y rolau a'r rheolau yn cael eu dilysu yn ôl y gweithdrefnau diogelwch ac archwilio sefydledig?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 47. | *[Pa fesurau archwilio a rhagofalon technegol sydd mewn grym i atal camddefnydd o ddata?]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |
| 48. | *[Disgrifiwch pa hyfforddiant preifatrwydd sy'n cael ei ddarparu i ddefnyddwyr, hyfforddiant cyffredinol neu hyfforddiant sy'n berthnasol i weithrediad y rhaglen neu system.]*<br>Gweler yr ateb i Gwestiwn 41. |

## Deddfwriaeth a pholisïau

| | |
|---|---|
| 49. | *[Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 2003]*<br>***Technoleg***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys technolegau cyfathrebiadau electronig newydd neu dechnolegau cyfathrebiadau electronig sy'n ymosod yn gynhenid ar breifatrwydd?*<br>*Er mwyn atal unrhyw amheuaeth, mae 'cyfathrebiadau' yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyfnewid neu ei chyfleu rhwng partïon cyfyngedig drwy ddulliau gwasanaeth cyfathrebiadau electronig cyhoeddus, ond nad yw'n cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei chyfleu fel rhan o wasanaeth rhaglen, ac eithrio i'r graddau y gall gwybodaeth o'r fath fod yn gysylltiedig â'r tanysgrifiwr adnabyddadwy neu'r defnyddiwr sy'n derbyn y wybodaeth]*<br>Nac ydy. |
| 50. | *[Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 2003]*<br>***Darparwyr cyfathrebiadau***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys darparwyr cyfathrebiadau newydd neu bresennol?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'darparwyr cyfathrebiadau' yn golygu person neu sefydliad sy'n darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig neu wasanaeth cyfathrebiadau electronig.[2]]*<br>Y ddau. |
| 51. | *[Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 2003*<br>***Tanysgrifwyr / defnyddwyr cyfathrebiadau***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys tanysgrifwyr / defnyddwyr cyfathrebiadau newydd neu bresennol?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, ystyr 'tanysgrifiwr cyfathrebiadau' yw person sydd â chontract gyda darparwr gwasanaethau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus i gyflenwi gwasanaethau o'r fath. Ystyr 'defnyddiwr' yw unigolyn sy'n defnyddio gwasanaeth cyfathrebiadau electronig.]*<br>Y ddau. |

[2] Ffynhonnell – Deddf Cyfathrebiadau 2003

| | |
|---|---|
| 52. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 2: Hawl i Fywyd***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i fywyd, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a allai gael eu diffinio yn Erthygl 2(2)?*<br><br>*Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yr amgylchiadau cyfyngedig yw, mewn cyfnod o heddwch, ni all awdurdod cyhoeddus achosi marwolaeth oni fydd y farwolaeth yn deillio o rym a ddefnyddiwyd fel a ganlyn:*<br><br>• *Hunanamddiffyniad neu amddiffyn person arall rhag trais anghyfreithlon;*<br>• *Arestio rhywun neu atal rhywun rhag dianc o arestiad cyfreithlon;*<br>• *Gweithred gyfreithiol i ostegu terfysg neu wrthryfel.]*<br><br>Na. |
| 53. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 3: Atal Artaith***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i beidio cael ei arteithio neu dderbyn triniaeth annynol neu ddiraddiol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn hawl diamod.]*<br><br>Na. |
| 54. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 4: Gwahardd Caethwasiaeth neu Lafur Gorfodol***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith andwyol ar hawl unigolyn i beidio cael eu cadw mewn caethiwed neu gael eu gorfodi i gyflawni llafur gorfodol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn hawl diamod; mae'r canlynol wedi'u heithrio rhag cael eu diffinio fel llafur gorfodol:*<br><br>• *Gwaith a wneir fel rhan arferol o ddedfryd carchar neu ddedfryd gymunedol;*<br>• *Gwasanaeth milwrol;*<br>• *Gwasanaeth cymunedol mewn argyfwng cyhoeddus; a rhwymedigaethau sifil Arferol.]*<br><br>Na. |

| | |
|---|---|
| 55. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 5: Hawl i Ryddid a Diogelwch***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i beidio cael eu hamddifadu o'u rhyddid oherwydd cyfyngiadau penodol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol pan fydd unigolyn:*<br><br>• *Yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn dilyn collfarn gan lys cymwys;*<br>• *Yn cael ei arestio'n gyfreithlon neu'n cael ei gadw am ddiffyg cydymffurfiaeth â gorchymyn llys cyfreithiol neu gyflawni unrhyw rwymedigaeth gyfreithlon;*<br>• *Yn cael ei arestio neu ei gadw'n gyfreithlon er mwyn cyflwyno'r unigolyn gerbron awdurdod cyfreithiol cymwys;*<br>• *Yn cael ei gadw'n gyfreithlon er mwyn atal lledaenu clefydau heintus;*<br>• *Yn cael ei gadw'n gyfreithlon ar gyfer diogelwch personol (yn berthnasol i unigolion nad ydynt yn eu iawn bwyll, pobl sy'n gaeth i gyffuriau ac yn y blaen);*<br>• *Yn cael ei gadw'n gyfreithlon er mwyn atal mynediad anghyfreithlon i'r wlad neu alltudiaeth gyfreithlon o'r wlad.]*<br><br>Na. |
| 56. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 6: Hawl i Dreial Teg***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i gael gwrandawiad cyhoeddus o fewn amser rhesymol gan dribiwnlys annibynnol a diduedd a sefydlwyd gan y gyfraith?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r gwrandawiadau sy'n cael eu cynnwys yn achosion sifil a throseddol, nad ydynt yn cael eu hystyried yn swyddogol fel gwrandawiadau y mae'n rhaid eu cynnal yn breifat, h.y. ar gau i'r cyhoedd.]*<br><br>Na. |
| 57. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 7: Dim Cosb heb Gyfraith***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i beidio cael ei erlyn am drosedd nad oedd, ar yr adeg honedig y cyflawnwyd hi, yn cael ei hystyried yn drosedd o dan gyfreithiau cenedlaethol neu ryngwladol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn hawl diamod.]*<br><br>Na. |

| | |
|---|---|
| 58. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>***Erthygl 8: Hawl i Barch at Fywyd Preifat a Theuluol***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i barch at breifatrwydd yn nhermau eu bywyd preifat a theuluol, yn amodol ar gymwysterau penodol?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, y cymwysterau yw:*<br>• *Cydymffurfiaeth gyfreithiol;*<br>• *Diogelwch cenedlaethol;*<br>• *Diogelwch y cyhoedd;*<br>• *Yr economi genedlaethol;*<br>• *Atal troseddau ac anrhefn;*<br>• *Diogelu iechyd a moesau cyhoeddus;*<br>• *Diogelu hawliau a rhyddid eraill.]*<br>Na. |
| 59. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>***Erthygl 9: Hawl i Ryddid Meddwl, Cydwybod a Chrefydd***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd, yn amodol ar gymwysterau penodol?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, y cymwysterau yw:*<br>• *Oni ragnodir gan y gyfraith;*<br>• *Er budd diogelwch y cyhoedd;*<br>• *Diogelu'r drefn gyhoeddus, hawliau neu foesau;*<br>• *Diogelu hawliau a mathau eraill o ryddid.]*<br>Na. |
| 60. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br>***Erthygl 10: Hawl i Ryddid Mynegiant***<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i gynnal barn a mynegi eu safbwyntiau yn unigol neu mewn dialog, yn amodol ar gymwysterau penodol?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, y cymwysterau yw'r rhai a nodir yn Erthygl 9 uchod.]*<br>Na. |

| | |
|---|---|
| 61. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 11: Hawl i Ryddid Ymgynnull a Chymdeithasiad***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i ryddid ymgynnull yn heddychlon a chymdeithasiad gydag eraill, yn amodol ar gymwysterau penodol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, y cymwysterau yw'r rhai a nodir yn Erthygl 9 uchod.]*<br><br>Na. |
| 62. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 12: Hawl i Briodi***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i briodi a chychwyn teulu, yn amodol ar gymwysterau penodol?*<br><br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r cyfyngiadau yn cael eu rheoleiddio gan y gyfraith, felly ar yr amod nad ydynt yn atal yr hawl, e.e. mae cyfyngiadau oedran yn berthnasol.]*<br><br>Na. |
| 63. | *[Deddf Hawliau Dynol 1998*<br><br>***Erthygl 14: Hawl i Ryddid rhag Gwahaniaethu***<br><br>*A yw'r prosiect yn cynnwys dulliau prosesu data newydd neu bresennol sy'n cael effaith niweidiol ar hawl unigolyn i gael ei drin mewn ffordd nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn yr unigolyn, yn amodol ar rai cyfyngiadau?*<br><br>*Gall gwahaniaethu fod yn seiliedig ar:*<br><br>• *Rhyw*<br>• *Hil*<br>• *Lliw*<br>• *Iaith*<br>• *Crefydd*<br>• *Argyhoeddiad gwleidyddol*<br>• *Tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol*<br>• *Genedigaeth*<br>• *Statws arall.*<br><br>Na. |

| | |
|---|---|
| 64. | *[Deddf Hawliau Dynol1998*<br>***Erthyglau: 16 / 17 / 18***<br>*Nid yw'r rhain yn berthnasol at ddiben yr holiadur hwn.]*<br>Fel y nodwyd uchod – nid ydynt yn berthnasol. |
| 65. | *[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000*<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys technolegau electronig newydd neu dechnolegau electronig sy'n ymosod yn gynhenid ar breifatrwydd er mwyn rhyng-gipio cyfathrebiadau?*<br>*Er mwyn osgoi amheuaeth, mae 'cyfathrebiadau' yn cael ei ddiffinio yn RIPA Rhan V, adran 81(1).]*<br>Nac ydy. |
| 66. | *[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000*<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys technolegau electronig newydd neu dechnolegau electronig sy'n ymosod yn gynhenid ar breifatrwydd sy'n ymwneud â chaffael a datgelu data sy'n gysylltiedig â chyfathrebiadau?]*<br>Nac ydy. |
| 67. | *[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000*<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys technolegau electronig newydd neu dechnolegau electronig sy'n ymosod yn gynhenid ar breifatrwydd sy'n ymwneud â chynnal gwaith gwyliadwriaeth?]*<br>Nac ydy. |
| 68. | *[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000*<br>*A yw'r prosiect yn cynnwys technolegau electronig newydd neu dechnolegau electronig sy'n ymosod yn gynhenid ar breifatrwydd sy'n ymwneud â darparu dull o ddadgryptio neu gael mynediad i ddata electronig sydd wedi'i ddiogelu gan amgryptiad neu gyfrineiriau?]*<br>Nac ydy. |
| 69. | *[Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000*<br>*A yw'r prosiect yn ymgymryd ag unrhyw rai o swyddogaethau'r Gwasanaeth Diogelwch, y Gwasanaeth Cudd-Wybodaeth Gyfrinachol neu Bencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y DU?]*<br>Nac ydy. |

## Atebion eraill


Ni chafodd unrhyw atebion technolegol eraill eu hystyried.

## Yr ateb a fabwysiadwyd

Mae'r darparwr gwasanaeth newydd wedi bodloni'r gystadleuaeth dyfarnu grant. Pe byddai unrhyw bryderon yn codi yn y dyfodol, bydd Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda'r darparwr i'w datrys.


## Cynlluniau diogelu data/lleihau risgiau

Rheolaethau Diogelwch Gwybodaeth a Lefelau Effaith priodol y Llywodraeth. Mae'r holl drefniadau diogelwch yn seiliedig ar gyngor ymgynghorydd CLAS.



# Adran 4 – Dadansoddiad llif data

## Diagram a disgrifiad o lif data busnes




## Tabl llif ddata

Mae'r diagramau uchod yn dangos y cysylltiadau sylfaenol yn y broses o gefnogi teuluoedd mewn profedigaeth oherwydd lladdiad.  Pan fydd asiantaethau yn cysylltu â'i gilydd, mae ganddynt gytundebau e-bost diogel a throsglwyddo data angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data.

## Materion

Nid oes unrhyw faterion nad ydynt wedi'u diogelu gan y trefniadau sydd mewn grym i gydymffurfio â'r gofynion sydd eu hangen i gyflawni dyfarniad y gystadleuaeth am grant.

# Adran 5 – Dadansoddiad diogelu data a chynllun rheoli risg

## Rhanddeiliaid / cyfranogwyr

Nid oedd unrhyw rai o'r rhain yn gysylltiedig â'r broses sgrinio. Roedd yr Heddlu, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, y darparwr gwasanaeth presennol, asiantaethau'r CJS a grwpiau cymorth rhanddeiliaid yn gysylltiedig â'r broses asesu anghenion sy'n sail i broses gomisiynu'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau.

## Y Broses ddadansoddi

Roedd y broses sgrinio yn un broses unigol a baratowyd gan y Gwasanaeth Caffael (NOMS).

## Crynodeb o'r dadansoddiad

Dim ond Asesiad byr o'r Effaith ar Breifatrwydd oedd ei angen. Mae'r systemau data fel y rhai blaenorol yn eu hanfod, gyda rhywfaint o ychwanegu / newid yn nhermau'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â hyn.

## Rheoli risg

Gallai newid darparwr gwasanaeth gael effaith ar faterion diogelu data.

*Noder: Mae Gweinidogion wedi cytuno y dylai'r gwasanaeth newydd gael ei weithredu gan y deiliad presennol. Nid yw materion diogelu data yn risg.*

## Lliniaru risgiau

Roedd cynnwys cydweithiwr sicrwydd data TGCh Y Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn cyflwyniadau gan ddarpar ddarparwyr gwasanaeth wedi galluogi'r panel gwerthuso i asesu cynigion gwybodaeth data gan gynigwyr.

## Crynodeb

Mae lefel risg isel pe byddai'r deiliad presennol yn gweithredu'r Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau newydd. Byddai'n bosibl lliniaru risgiau sy'n deillio yn sgil darparwr gwasanaeth newydd drwy weithio gyda'r un darparwr ar gynigion data.

*Noder: Mae Gweinidogion wedi cytuno y dylai'r gwasanaeth newydd gael ei weithredu gan y deiliad presennol. Nid yw materion diogelu data yn risg.*

# Adran 6 – Cyfathrebiadau / Strategaeth Gyhoeddi

## Cyfathrebiadau

Cyhoeddir Datgeliad Llawn.

## Strategaeth Gyhoeddi

Cyhoeddi ymrwymiad y llywodraeth a chystadleuaeth dyfarnu grant cyhoeddus.

## Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014 – cyhoeddiad cryno

Gellir cyhoeddi pob adran o'r adroddiad hwn.

# Adran 7 – Cymeradwyo'r adroddiad

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyaeth ar gyfer:** | **Comisiynu darparwr gwasanaeth i weithredu Gwasanaeth Cymorth Cenedlaethol yn dilyn Lladdiadau o 1 Hydref 2014.** |
| Arweinydd Polisi/Noddwr Busnes/Rheolwr Prosiect | Nicola Hewer |
| Perchennog yr Ased Gwybodaeth | Cymorth i Ddioddefwyr |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | 2il Rhagfyr 2014 |

**ATODIAD**

**CYMDEITHAS PRIF SWYDDOGION YR HEDDLU (ACPO) – CYTUNDEB ATGYFEIRIO DIODDEFWYR CYMORTH I DDIODDEFWYR (18 RHAG 2003)**

1. Mae gan y daflen *Dioddefwr Trosedd* rôl hollbwysig yn y gweithdrefnau hyn. Rhoddir y daflen gan yr heddlu i ddioddefwyr troseddau. Mae'n esbonio beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn rhoi gwybod am drosedd, beth sy'n digwydd nesaf, a pha help a chyngor arall sydd ar gael. Mae'r daflen yn esbonio y bydd manylion y dioddefwyr yn cael eu trosglwyddo i Cymorth i Ddioddefwyr, oni fydd y dioddefwyr wedi dymuno fel arall (ac eithrio mewn achos o drais domestig neu drosedd rywiol neu deuluoedd mewn profedigaeth oherwydd lladdiad, lle bydd angen caniatâd diamwys ym mhob achos).

2. Mae'r hawl hwn wedi'i nodi'n glir ar glawr blaen y daflen, lle mae'r pedwerydd pwynt bwled yn datgan:
*"Bydd yr heddlu yn trosglwyddo gwybodaeth amdanoch i Cymorth i Ddioddefwyr, er mwyn iddynt allu cynnig help a chymorth, oni fyddwch yn gofyn i'r heddlu beidio gwneud hynny."*

3. Mae'r neges hon yn cael ei hatgyfnerthu yn adran 'Rhestr Wirio Gweithredu' y daflen ac o dan y pennawd 'Help gan Gynlluniau Cymorth i Ddioddefwyr'.

4. Er bod y daflen yn un ffordd o helpu i sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol y gallant eithrio o'r trefniant i drosglwyddo eu manylion i Cymorth i Ddioddefwyr, ni ddylid dibynnu arni fel yr unig ffordd. Mae'n bwysig bod swyddogion yn esbonio'n glir i ddioddefwyr y bydd eu manylion yn cael eu trosglwyddo i Cymorth i Ddioddefwyr fel arfer, oni fydd y dioddefwyr yn dweud nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd. Gallai swyddogion gyflawni'r gofyniad hwn gan ddefnyddio geiriau safonol wrth gofnodi manylion y troseddwr gan y dioddefwr, gan ddilyn y canlynol:

   *"Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn elusen annibynnol sy'n gallu cynnig help i chi. Rydym yn argymell eu gwasanaethau, ac mae'n bolisi gan yr heddlu i atgyfeirio eich manylion atynt, oni fyddwch yn gofyn i ni beidio gwneud hynny."*

   Os yw'r dioddefwr yn dweud wedyn nad ydynt yn dymuno i'w manylion gael eu trosglwyddo i Cymorth i Ddioddefwyr, dylai'r swyddog gofnodi'r/bydd y swyddog yn cofnodi'r ffaith honno yn unol â pholisi'r heddlu lleol e.e. yn ei lyfr/llyfr nodiadau, neu ar y system gyfrifiadurol os yw'n cofnodi manylion y drosedd dros y ffôn, a sicrhau cydymffurfiaeth. Oni fydd ymateb o'r fath yn cael ei gofnodi'n ffurfiol, gellir tybio bod y dioddefwr yn fodlon i'w manylion gael eu trosglwyddo. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn, pan ddefnyddir systemau gwybodaeth i gofnodi trosedd, bydd y dull ar gyfer cofnodi'r hysbysiad i'r dioddefwr hefyd yn werthfawr. Pe byddai'r dioddefwr yn cwyno i'r Comisiynydd yn ddiweddarach bod eu manylion wedi'u trosglwyddo i Cymorth i Ddioddefwyr yn ddiarwybod iddynt hwy, yna bydd cofnod o'r fath ar gael i unrhyw Brif Swyddog er mwyn gwrthbrofi honiad o'r fath.

5. Dylid pwysleisio polisi'r heddlu ar gyfer atgyfeirio manylion dioddefwyr i Cymorth i Ddioddefwyr mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, ar wefannau'r

heddlu, yn nhaflenni'r heddlu ac ar bosteri yng ngorsafoedd yr heddlu ac yn y blaen.

6. Dylid parhau i sicrhau caniatâd diamwys dioddefwyr trais domestig, troseddau rhyw neu berthnasau dioddefwyr lladdiadau. Dylai dioddefwyr o'r fath, yn dilyn argymhelliad i wasanaethau Cymorth i Ddioddefwyr, barhau i dderbyn ceisiadau i'w manylion gael eu trosglwyddo i Cymorth i Ddioddefwyr, a dylid ond gwneud atgyfeiriad ar ôl i'r dioddefwr gytuno i wneud hynny.

7. Pan fydd Swyddog Cyswllt â Theulu yn rhan o'r broses, dylid cynnig ac argymell y gwasanaethau sydd ar gael gan Cymorth i Ddioddefwyr ar yr achlysur cynharaf mwyaf priodol a gofyn am ganiatâd.

8. Y wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo'n arferol i Cymorth i Ddioddefwyr
    i. Enw
    ii. Cyfeiriad
    iii. Rhif ffôn cyswllt
    iv. Rhyw
    v. Oedran
    vi. Manylion cryno am y drosedd – yn cynnwys ethnigrwydd hunanddiffiniedig (o dan y system 16 + 1) pan fydd yn berthnasol i'r drosedd. E.e. troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus ar sail hil pan fydd yn bosibl bod ethnigrwydd cywir y dioddefwr yn groes i'r hyn a nodwyd gan y tramgwyddwyr, neu pan fydd y dioddefwr yn credu bod y drosedd wedi'i hysgogi gan hil.

9. Gellir trosglwyddo gwybodaeth arall ar sail achosion unigol, pan fydd angen y wybodaeth ychwanegol ar Cymorth i Ddioddefwyr er mwyn asesu'r math a'r lefel o gymorth sydd ei angen.

10. Mae rhai troseddau, oherwydd eu nifer, na all Cymorth i Ddioddefwyr ddelio â hwy bob tro, ac mae'n bosibl na fydd yr heddlu yn trosglwyddo'r troseddau hyn fel mater o drefn, oni bai bod ffactorau gwaethygol cysylltiedig. Y troseddau hyn yw:
    a. dwyn o gerbydau modur
    b. ymyrryd â cherbydau modur
    c. mân ddifrod troseddol
    d. dwyn cerbyd modur

    Fodd bynnag, bydd ffactorau gwaethygol, er enghraifft erledigaeth reolaidd, cais cyswllt gan ddioddefwr, dioddefwyr agored i niwed neu droseddau casineb yn sicrhau atgyfeiriad i Cymorth i Ddioddefwyr.

11. Mae'r sefyllfaoedd sy'n deillio o laddiad neu anafiadau oherwydd damweiniau ffordd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan weithgor y llywodraeth, a dylai pob ardal heddlu drafod gyda'i Hardal Cymorth i Ddioddefwyr y lefel o gymorth y gallant ei darparu ar hyn o bryd.

12. Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd yn un o'r asiantaethau rhestredig y gellir cysylltu â hwy mewn ymateb i argyfyngau a thrychinebau.

Cytunwyd rhwng Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu a Chymorth i Ddioddefwyr – 18 Rhagfyr 2003

OGL

**(h) Hawlfraint y Goron 2014**

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunyddiau hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi sicrhau caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint honno.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill, ar gais o:

Ministry of Justice, Victims, Witnesses and Criminal Justice Delivery, 4th Floor (Zone B), 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ

neu o:

victimsandwitnesses@cjs.gsi.gov.uk